


DOSBARTHIAU 2 a 3
BLYNYDDOEDD 8 a 9

1. Sawl sgwâr sy'n y llun?



(a) 9 (b) 10 (c) 12 (ch) 14 (d) 16

2. Wrth edrych arni mewn drych mae'r llythyren

P

yn edrych fel

Q

Beth fydd siâp y gair canlynol mewn drych?

GEM

3. Defnyddir 12 matsien i ffurfio'r hafaliad -



Cywirwch yr hafaliad drwy symud un fatsien.

Ateb:

4. Beth yw'r rhif nesaf yn y dilyniannau canlynol ?

(i) 2 3 5 7 11 -

(a) 13 (b) 14 (c) 15 (ch) 16 (d) 17

(ii) 9 21 29 41 49 -

(a) 51 (b) 59 (c) 61 (ch) 69 (d) 71

5. Mae dafnau inc wedi syrthio ar rai o'r rhifau yn y swm canlynol -

$$\begin{array}{r}
 \bullet \quad 3 \quad \bullet \\
 \times \quad \quad \quad 7 \\
 \hline
 \bullet \quad 6 \quad \bullet \quad 8
 \end{array}$$

Beth yw'r rhifau coll?

$$\begin{array}{r}
 \quad \quad \quad 3 \\
 \times \quad \quad \quad 7 \\
 \hline
 \quad \quad 6 \quad 8
 \end{array}$$


6. Dyma rai prisiau ar fwydlen caffi -

Sosej a sglodion	70c
Wy a bacwn	60c
Wy a sglodion	50c

Beth yw pris "Sosej a bacwn"?

(a) 50c (b) 60c (c) 70c (ch) 80c (d) 90c

7. Dyma lun ciwb:




Sawl wyneb sydd ar giwb? Ateb _____

Sawl cornel sydd ar giwb? Ateb _____

Sawl ymyl sydd ar giwb? Ateb _____

8.



Beth yw arwynebedd A?

- (a) $\frac{1}{2}\pi$ (b) π (c) 2 (ch) 2π (d) 4


9. Wrth ddilyn rheol arbennig mae'r rhifau ar y disiau canlynol yn rhoi'r atebion a nodir. Beth yw'r rheol?

			= 7
			= 10
			= 15
			= ?

Mae'r rhif ? yn hafal i:

- (a) 5 (b) 10 (c) 15 (ch) 20 (d) 25

10. Nodwch gyda ✓ pa ddau o'r siapiau canlynol y gellir eu tynnu heb godi'ch pensil o'r papur ac heb fynd dros yr un llinell fwy nag unwaith.



11. Gall pedwar 4 lunio'r rhif 6 fel a ganlyn -

$$6 = 4 + \frac{(4+4)}{4}$$

neu'r rhif 10

$$10 = \frac{44-4}{4}$$

Gan ddefnyddio pedwar 4 ceisiwch lunio'r rhifau canlynol -

(i) 1 =

(ii) 3 =

12. Dosbarthwch y rhifau 6, 8, 9, 10 a 12 yn y cylchau fel bo cyfanswm pob llinell o bedwar rhif yn 24 -

